**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 28 Chwefror 2012 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd David Richardson – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Dewi Owen – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr Alun Wyn Evans, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates, Cyng. Megan Reynolds (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Roger Lawson-Mole (Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr R D Usher (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi), Mr J Eddington (Clwb Rhwyfo Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Ioan C. Thomas (Cyngor Gwynedd), Mr Sam Wilding (Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound), Mr Llyr Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Mr Paul Edwards (Harbwr Feistr Aberdyfi).

1. **GAIR O GROESO**

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod gan Gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd David Richardson:

(a) Mr R D Usher a oedd yn mynychu ar ran Clwb Hwylio Aberdyfi yn absenoldeb Mr Desmond George.
(b) Mr John Eddington a oedd yn mynychu ar ran Clwb Rhwyfo Aberdyfi ac fe eglurodd ei fod wedi ei benodi yn Gydlynydd Rhanbarthol Cynllunio a'r Amgylchedd i Gymdeithas Hwylio Frenhinol

2. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 18 Hydref 2011.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r cywiriad isod:**

**Tudalen 4- paragraff olaf ym mhwynt (e) - dileu'r gair "feirniadaeth" a'i newid i "sylw" a'i fod yn darllen "a'r unig sylw a deimlwyd ydoedd ……"**

**3.1** Yn dilyn derbyn y cofnodion, nododd y Cadeirydd ei anniddigrwydd am ddiffyg gwybodaeth yn y cofnodion a gyflwynwyd ganddo yn llafar i'r cyfarfod diwethaf parthed y nifer o gychod a ymwelodd ag Aberdyfi.

3.2 Nododd y Cadeirydd bod Cyngor Cymuned Aberdyfi wedi cyflwyno'r eitemau canlynol i'w trafod i'r cyfarfod hwn ond nad oeddynt yn ymddangos ar y Rhaglen:

(i) Ail-ddatblygu'r Cei - rhagwelir y bydd yr estyll (shuttering) yn annefnyddiol ar ol 2016 a gofynnir pa gynlluniau sydd mewn lle i ymdrin â'r sefyllfa
(ii) Cysgodfa Penhelyg - sefyllfa bresennol ynglyn â chynnal a chadw
(iii) Clirio tywod – angen clirio tywod oddi ar y Promenad / Maes Parcio

Awgrymodd Aelod y dylid ymdrin â'r uchod ar ddiwedd y cyfarfod neu fel rhan o adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Mowrol a Pharciau Gwledig bod eitem (i) wedi ei chynnwys yn yr adroddiad ac y byddai cyfeiriad at glirio tywod. Nid oedd yn rhagweld bod cynnal a chadw cysgodfa yng ngardd Penhelyg yn fater a fyddai'n cael ystyriaeth gan y Pwyllgor Harbwr er bod y gysgodfa yn cael ei gynnal a'i chadw gan yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig.

## 4. <u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

### (i) Dŵr Ymdrochi Aberdyfi

(a) Adroddwyd bod ansawdd Dŵr Ymdrochi Aberdyfi wedi cwrdd â safon ofynnol angenrheidiol am 2011 ac er na gyrhaeddodd y safon ofynnol ar gyfer Gwobr y Faner Las Rhyngwladol fe fyddai cais yn cael ei gyflwyno am Wobr Traeth Tref Glan Môr 2012.

(b) Atgoffwyd yr Aelodau ynglŷn â'r newid sylweddol i'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd newydd sydd yn dod i rym yn 2015 ac y byddai cwrdd â'r meini prawf caeth i ddyfroedd ymdrochi yn rhai heriol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd ac o gofio am safon anwadal y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi dros y pum mlynedd diwethaf, gallai'r dŵr ymdrochi gael ei ddosbarthu fel bod o "safon wael" o dan y gyfarwyddeb newydd yn 2015.

Tynnwyd sylw Aelodau bod yr Uned wedi gwneud cais i Seremoni flynyddol Baner Las Cymru gael ei chynnal yn Nhywyn yn 2012 gyda'r nod o ddenu cyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r ardal.

(c) Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol mewn ymateb i ymholiad gan Aelod na fyddai baw cwn ar draethau yn ystyriaeth o ran y wobr uchod ac mai'r prif ffactor lle nad oes gan yr Uned Forwrol reolaeth drosto ydoedd ansawdd y dŵr ymdrochi. Fodd bynnag tra'n derbyn bod cwn yn baeddu yn broblem roedd peidio codi baw ci yn drosedd. Eglurwyd ymhellach os ydoedd ci unigolyn yn baeddu a phe na fyddai'r perchennog yn codi'r baw, yna gall swyddogion cymwysedig y Cyngor, gan gynnwys yr Harbwr Feistr, gyflwyno dirwy i'r perchennog hwnnw boed y ci wedi baeddu ar y traeth neu ar lwybr. Roedd Harbwr Feistr Abermaw yn weithredol iawn yn hyn o beth yn Abermaw. Roedd gan Harbwr Feistr Aberdyfi'r un hawl ac awdurdod i weithredu yn Aberdyfi ers oddeutu pedair blynedd bellach er nad oedd unrhyw ddirwy wedi ei gyflwyno gan y Swyddog yn Aberdyfi.

(ch) Amlygwyd pryder gan Aelod ynglyn ag safon ansawdd gwael y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi a mynegodd siom nad oedd swyddog o Asiantaeth yr Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod i adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r profion a wnaethpwyd ers y cyfarfod diwethaf. Roedd yr Aelod o'r farn y byddai'n fuddiol i swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd fod yn bresennol ymhob cyfarfod er mwyn ymateb i ymholiadau a sylwadau gan Aelodau sydd yn adnabod yr ardal yn dda. Roedd yn ymwybodol bod y swyddogion wedi ymweld â mwyafrif o ffermydd yn ystod y gaeaf ond teimlwyd bod mannau eraill y gellid ymchwilio a all fod yn cyfrannu tuag at y llygredd sy'n cario i lawr yr afon. Dylid parhau gyda monitro cyson a phwyso ar unigolion i ddatrys unrhyw ddiffygion er mwyn gwella ansawdd dŵr ymdrochi yn Aberdyfi.

Mewn ymateb, atgoffodd y Swyddog Morwrol y derbyniodd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn adroddiad cynhwysfawr iawn yn ei gyfarfod diwethaf gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac y byddai'n fwy priodol gwahodd y swyddogion yn ôl i'r cyfarfod nesaf sef ym mis Hydref.

**Penderfynwyd: (i) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ii) Gofyn i'r Swyddog Morwrol wahodd swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i gyflwyno adroddiad cynnydd ynglyn â monitro ansawdd dŵr ymdrochi Aberdyfi.**

**(ii) Ffioedd a Thaliadau**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr argymhellir cynnydd o 2.5% yn ffioedd a thaliadau'r harbwr i bob cwch fydd yn angori yn yr ardal sydd o dan awdurdod Harbwr Aberdyfi ac Abermaw yn 2012/13. Rhagwelir y bydd cynnydd yn harbwr Aberdyfi am 2012/13 yn 2.08% ffigwr sydd wedi ei selio ar nifer o ffactorau sy'n codi a gostwng uwchben lefel chwyddiant (trydan ac ati). Nodwyd bod cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i Aberdyfi am 2012/13 yn £830 gyda chyfanswm y targed incwm yn £40,700 am y flwyddyn. Er mai bychan yw'r targed incwm mewn cymhariaeth â safleoedd eraill roedd yn darged heriol iawn i Harbwr bach.

Nodwyd bod y contractwr angorfeydd wedi derbyn rhybudd eleni nad oedd i osod yr angorfeydd hyd nes y derbynnir cyfarwyddyd clir ar y lleoliadau gan yr Harbwr Feistr. Hyderir y bydd y contractwr yn cydymffurfio â'r gofynion ac y gwelir gwellhad yn y trefniadau'r flwyddyn yma.

(b) Mynegodd Aelod ei siom nad oedd Harbwr Aberdyfi yn cyrraedd y targed incwm ac o'i brofiad ef o hwylio am 28 mlynedd nid oedd wedi gweld gwelliannau yn yr Harbwr yn ystod y cyfnod hwnnw. Tra'n cydnabod bod y Clwb Hwylio wedi gwario ar welliannau nid oedd y Cyngor wedi gwario o gwbl yn y rhan yma o'r Sir ac ymddengys bod miloedd o bunnoedd yn cael ei wario yn Harbwr Pwllheli a Doc Victoria. Roedd ymdrechion wedi ei gwneud i gael pontŵn yn Aberdyfi ond wedi bod yn aflwyddiannus. Roedd yr Aelod o'r farn y dylai'r Gwasanaeth wneud mwy o ymdrech oherwydd bod Aberdyfi yn ddeniadol dros ben ac oni fyddir yn rhoi ystyriaeth deilwng i wella'r cyfleusterau yn yr Harbwr fe welir cychod yn diflannu oddi yno yn gyfan gwbl i harbyrau eraill.

(c) Ategodd y Cadeirydd y pryder uchod ac fe restrodd enwau nifer o gychod oedd wedi gadael yr Harbwr oherwydd prinder cyfleusterau o safon. Nododd ymhellach y byddai'n rhaid i'r Gwasanaeth fod yn rhagweithiol drwy gynnal trafodaethau gyda'r cwsmeriaid o'r hyn a ddymunent gael fel gwelliant i'r cyfleusterau. Nid oedd yn syndod bod lleihad yn y nifer o gychod ymwelwyr a ddaw i Harbwr Aberdyfi ac o'r herwydd nad oedd yr Harbwr yn cyrraedd y targed incwm a hynny'n bennaf oherwydd diffyg cyfleusterau sydd ar gael i forwyr yn yr Harbwr. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau am y "Pecyn Croeso" a ddarparwyd ganddo yn 2010 i'w cyflwyno i berchnogion cychod sy'n ymweld ag Aberdyfi a oedd yn cynnwys gwybodaeth helaeth am yr ardal, busnesau lleol, a.y.b. Roedd o'r farn nad oedd pecynnau croeso wedi eu cyflwyno'r llynedd a'i fod yn bwriadu darparu rhai eto eleni gyda'r gobaith y gellir eu cyflwyno i

berchnogion cychod sy'n ymweld eleni.  Nodwyd yr angen i'r Gwasanaeth ddenu mwy o gwsmeriaid i Harbwr Aberdyfi drwy hysbysebu'n eang, llunio ac arddangos posteri, a.y.b.

(ch) Mewn ymateb, atgoffodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Cyngor wedi buddsoddi yn Harbwr Aberdyfi er nad oedd y gwelliannau yn weledol megis ymchwilio i'r posibilrwydd o gael pontwn ond yn anffodus nid oedd cyflwr y cei yn caniatáu hyn.  Atgoffwyd Aelodau bod buddsoddiadau sylweddol wedi eu gwneud yn Aberdyfi er ceisio sefydlu marina yn yr Harbwr.  Roedd arian sylweddol wedi ei fuddsoddi mewn astudiaethau ac adroddiadau.  Nodwyd bod y Gwasanaeth yn cydweithio hefo clybiau eraill megis Clwb Hwylio Abermaw er ceisio sicrhau arian mewn grantiau.  Nododd y Swyddog Morwrol bod mudiadau allanol yn gallu denu grantiau o wahanol ffynonellau na fyddai ar gael i'r Cyngor.  Ond rhaid cofio bod y trend hwylio ar hyd yr arfordir ar i lawr oherwydd sefyllfa'r economi.  Nodwyd mai dim ond 310 o geisiadau am angorfeydd allan o 421 a dderbyniwyd yn Hafan Pwllheli hyd yma ac nad oedd hyn yn adlewyrchiad o'r diffyg carthu yn yr harbwr.  Tra'n derbyn y byddai'n ofynnol i'r Gwasanaeth ystyried posibiliadau teimlai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd llawer o opsiynau y gallent eu gwireddu ac nad oedd pwrpas i ddatblygu cyfleusterau ychwanegol i'r hyn a gynigir gan y Clwb Hwylio.

Pwysleiswyd bod adnoddau yn brin iawn ac roedd y Gwasanaeth wedi ymdrechu gyda grŵp o unigolion i ddatblygu Marina yn Aberdyfi ond yn anffodus ni ddigwyddodd hyn am sawl rheswm.

(d) Awgrymodd Aelod arall tra'n deall y sefyllfa ynglyn ag adnoddau prin, yn y tymor byr roedd yn ofynnol gwneud y gorau o'r arian sydd ar gael a cheisio codi safonau yn yr Harbwr.  Fe fyddai cyfle arall ymhen pedair blynedd i ail-edrych ar yr estyll (shuttering) ar y cei ac efallai bryd hynny ystyried y posibilrwydd o ehangu'r cyfleusterau.

(dd) Nododd Aelod bod rhestr aros o gychod yn disgwyl am angorfeydd.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd o'r farn bod rhestr aros yn bodoli yn Aberdyfi ac os ydoedd unigolion angen angor, yna dylid darganfod lle i leoli angor iddynt.  Nid oedd o'r farn bod rhestr aros yn bodoli mewn harbwr gyda chyn lleied o gychod wedi ei angori oddi fewn ardal awdurdodaeth yr Harbwr.

(e) Atgoffodd y Cadeirydd o'r ymarferiad a gwblhawyd ganddo flwyddyn ddiwethaf o anfon 40 o lythyrau i unigolion ar y rhestr aros i ganfod ei bwriad ynglyn a chael angorfa ai peidio.  O'r ymateb a gafwyd darganfuwyd bod rhai wedi gwerthu cychod, rhai eraill wedi prynu cychod llai ac mai'r gwir ffigwr ar y rhestr fer bellach ydoedd 12.  Ymddengys o'r uchod hefyd bod 20 o'r angorfeydd yn wag bob blwyddyn ac felly, er bod y perchnogion yn talu ffioedd angori i'r Harbwr, nid oedd yr unigolion hyn yn cyfrannu at economi Aberdyfi.

Mewn ymateb, roedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o'r farn y dylid darganfod lle i 12 ac nad oedd unrhyw reswm pam na ddylid gwneud hynny.  Cadarnhaodd y byddai'n trafod y mater gyda'r Harbwr Feistr yn ddi-oed.

(f) Mynegwyd pryder gan Aelod bod y tywod wedi creu problemau cythreulig flwyddyn yma a bod y llithrfa yn hunllef i forwyr.  Roedd yr Aelod o'r farn y dylid clirio'r tywod oddi ar y llithrfa gan fod y cyhoedd yn tueddu i'w ddefnyddio fel rhan o'r traeth.  Ategodd Aelod o'r Clwb Hwylio eu bod fel cymdeithas wedi profi problemau eleni ac oherwydd cymaint o ddyfnder i'r tywod roedd yn denu pobl i'w ddefnyddio fel traeth ac fe welwyd rhai plant / pobl yn claddu eu hunain yn y tywod gan ei fod yn ddwfn mewn rhannau.

(g) Yn deillio o'r uchod, ychwanegodd Aelod y dylai'r tywod fod wedi cael ei glirio yn ystod y gaeaf diwethaf ac y dylid ceisio cael trefn i gynnal a chadw'r llithrfa yn dymhorol fel ei fod yn gynaliadwy dros gyfnod yr haf.  Nododd Aelod arall bod cerrig yn creu problemau yn yr un modd sy'n cael eu golchi i fyny ar y llithrfa o Fae'r Eglwys.

(ng) Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Beiriannydd y byddir yn clirio’r tywod gyda pheiriant pwrpasol ar 19 Mawrth 2012 ac y byddai’n debygol o fod ar y safle am bedwar diwrnod. Fe fyddir yn ei glirio i’r twyni yn unol â’r drefn arferol mewn ymgynghoriad gyda Chyngor Cefn Gwlad a’r Clwb Golff. Gofynnwyd i’r Prif Beiriannydd gan Aelod iddo roi gwybod i Adran Priffyrdd o’r bwriad yma fel eu bod yn gallu cydweithio a’i gilydd ar gyfer clirio’r tywod o’r maes parcio'r un pryd.

(h) Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y dylid ceisio cynnal a chadw’r llithrfa yn amlach. Roedd y gaeaf wedi bod yn eithriadol eleni gyda’r tywod yn Abermaw yn bedair troedfedd o ddyfnder mewn rhai mannau ar hyd y promenâd ac nad oedd pwynt i’w symud oherwydd y byddai’n ôl yn dilyn llanw. Sicrhaodd y Swyddog Morwrol y byddir yn trefnu i dîm o weithwyr o’r Gwasanaeth Morwrol gynorthwyo gyda chlirio’r tywod lle cedwir y dingis ar y raciau oherwydd nad oedd y peiriannau trwm yn addas ar gyfer clirio’r tywod o’r parc cychod / dingi.

**Penderfynwyd: (i) Derbyn a nodi’r uchod.**

**(ii) Gofyn i’r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drefnu bod y tywod yn cael ei glirio o’r parc cychod / dingi.**

**(iii) Cyllidebau**

(a) Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy fantolen ariannol Aberdyfi ac Abermaw am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hyd at 31 Rhagfyr 2011 gan nodi bod targed incwm Harbwr Aberdyfi am 2011/12 yn £39,870 gyda’r cyfanswm a greuwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 yn £30,983. Rhagwelir y bydd gwariant cyffredinol oddeutu -£2,000 o dan y targed gofynnol oherwydd tan wariant ar rai penawdau yn y gyllideb. Golygai’r gwarged gynnwys gostwng nifer y staff dros gyfnod y gaeaf mewn ymdrech i gwrdd â tharged y gyllideb. Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, yr angen i adnabod rhagor o arbedion ac felly nodwyd y byddai 2012/13 unwaith eto yn flwyddyn herio i’r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig ac yn enwedig harbyrau Aberdyfi ac Abermaw sy’n dangos bod angen cymorth ariannol ychwanegol i’w cynnal.

(b) Cyfeiriwyd hefyd at Adolygiad Corfforaeth Porthladd (Municipal Port Review) sydd ar hyn o bryd yn y broses gychwynnol o gynnal archwiliad o sefyllfaoedd ariannol harbyrau. Fel rhan o’r adolygiad bwriedir diogelu’r harbyrau hynny sydd yn gwneud elw.

(c) Gwnaed cymhariaeth gyda mantolen ariannol Harbwr Abermaw a thynnwyd sylw’r Aelodau at gyllideb y Traethau.

(ch) Mewn ymateb i bryder amlygwyd gan Aelod ynglyn â diffyg cyllideb yn arbennig o safbwynt iechyd a diogelwch y cyhoedd sy’n defnyddio cyfleusterau’r Harbwr, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yn rhaid, yn unol â’r Ddeddf Harbwr, i gynnal a chadw safonau'r bwiau mordwyo ond y Cyngor yn gorfforaethol sy’n gyfrifol am yr elfen iechyd a diogelwch.

(d) Nodwyd gan Aelod bod Harbwr Pwllheli yn gwneud elw ac y dylid edrych ar Aberdyfi hefyd fel rhan o’r holl gyfleusterau hwylio o fewn Gwynedd.

(dd) Ategodd Aelod y cynhelir rhan o weithgaredd Hwylfyrddio Ewropeaidd yn Aberdyfi a’i fod yn bwysig i’r pentref sydd yn denu llawer o bobl i’r ardal. Pwysleisiwyd bod pob gweithgaredd ac ymwelwyr yn help i economi’r ardal.

(e) Nodwyd gan Aelod ei bod yn deall na fyddir yn cynhyrchu llyfryn amserlenni llanw er na fyddir yn gwneud colled drwy eu cynhyrchu. Roedd yn amlwg bod y galw amdanynt ac oherwydd nad oedd y Cyngor mewn colled o'u cynhyrchu oni ddylid parhau i'w cynhyrchu? Roedd oddeutu 3,000 yn cael eu cynhyrchu ac fe werthir pob un ohonynt.

(f) Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn hanesyddol y cynhyrchwyd taflenni amseroedd llanw ac er nad oedd y Gwasanaeth yn gwneud colled drwy eu cynhyrchu roedd o'r farn y dylid ystyried codi'r pris er mwyn gwneud rhywfaint o elw neu ystyried oni ddylai fudiad / clwb neu gwmni preifat eu cynhyrchu.

(g) Awgrymodd Aelod oni ddylid ystyried denu cefnogaeth noddwyr i hysbysebu yn y llyfryn fel y gwneir gan Gyngor Ceredigion ac a fydd yn ei dro yn hyrwyddo ac yn hybu proffil Harbyrau Gwynedd. Nodwyd bod Cyngor Ceredigion yn eu gwerthu am £1.

(ng) Nododd Aelod arall nad oedd diben i gael gwahanol dablau amserlen i bob Harbwr – oni ddylid cynhyrchu un safonol ar gyfer Harbyrau Wynedd gyfan gan nodi + neu - ar gyfer amseroedd llanw uchel. Er ei bod yn hawdd cael mynediad at amseroedd llanw drwy ffonau symudol neu gyfrifiadur roedd yr Aelod o'r farn bod llyfryn amseroedd llanw yn arf da iawn ar gyfer marchnata ac yn ddefnyddiol i gael copi caled.

(h) Byddir yn cyflwyno'r mater uchod am ystyriaeth gan Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2012. Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Cyngor yn hysbysebu Harbwr Aberdyfi ac Abermaw yn llyfr peilot y "North West Venture Yacht Club - Cruising Anglesey and Adjoining Waters". Mae hefyd wedi trafod gyda'r awdur y posibilrwydd o gynnwys harbwr Aberdyfi ac Abermaw yn y llyfr peilot ymhen blwyddyn a hanner.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iv) Mordwyo**

(a) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd ganddo ddim i'w ychwanegu yng nghyswllt y gymorthyddion mordwyo na'r hyn a oedd wedi nodi yn ei adroddiad heb law bod yn rhaid sicrhau bod pob bwi yn ei le penodol cyn y Pasg.

(b) Nododd Aelod bod safle'r bwi'r Bar wedi newid a bod yr Harbwr Feistr yn ymwybodol o hyn. Apeliodd ar i'r contractwr angorfeydd dderbyn briff manwl ynglyn â hyn er mwyn ei gynorthwyo i adnabod y brif sianel. Nodwyd nad oedd un neu ddau o gymorthyddion ar safle ond yn deall bod trefniadau mewn llaw i'w hail osod yn y mannau priodol.

(c) Gofynnodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a oedd Aelodau yn gweld gwerth i barhau gyda bwi rhif 2.

Mewn ymateb, nododd Aelod ei fod yn ofynnol gosod bwi rhif 2 oherwydd weithiau nid ydoedd morwyr yn gweld bwi rhif 1 ac yn anelu'n syth at fwi rhif 3.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r sylwadau uchod.**

**(v) Staff**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bu i'r Gwasanaeth Morwrol hysbysebu swydd Cynorthwy-ydd Harbwr i Aberdyfi i ddechrau 2 Ebrill 2012 ac i barhau tan 30 Medi 2012. Rhagwelir na fydd y swydd yn barhaol i'r dyfodol ond fe gyflogir Swyddogion Traeth yn dymhorol. Ni fyddir ychwaith yn penodi Cymorthydd Harbwr yn Harbwr Pwllheli a

Phorthmadog eleni. Bydd gofyn i staff yn Aberdyfi sicrhau fod y lefel briodol o wasanaeth rhagweithiol a goruchwylio yn digwydd yn nyfroedd Harbwr Aberdyfi.

(b) Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod daflen waith yr Harbwr Feistr yn rhestru blaenoriaethau am fisoedd Hydref/Tachwedd a Rhagfyr. Ymddengys o'r rhaglen waith bod 9 diwrnod o waith rhagweithiol gyda 27 diwrnod o safbwynt gwaith anadweithiol. Nodwyd pwysigrwydd i weld cynnydd yn y gwaith rhagweithiol a'i fod yn allweddol bwysig sicrhau cynnydd yn y rhaglen waith ddyddiol dros fisoedd y gaeaf.

(c) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei bod yn gostus i'r Gwasanaeth Morwrol gario cyrff defaid sydd wedi ei golchi fyny'r lân ar y traeth ac nad oedd modd adnabod na darganfod pwy oedd y perchnogion.

Yn deillio o'r uchod, nododd Aelod ei fod wedi cario 5 o gyrff defaid ei hun yn ddiweddar a oedd wedi eu golchi fyny'r lân ar y traeth. Esboniodd yr Aelod bod modd adnabod perchennog y defaid drwy'r nod a / neu dag ar y glust.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(vi) Wal y Cei**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd manylion pendant i'w cyfleu ar hyn o bryd ynglyn â chynnal a chadw wal y cei. Roedd y Cyngor yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael ac yn parhau i wneud ymholiadau i benderfynu os fyddai wal y cei yn cael ei hystyried fel strwythur amddiffyn yr arfordir neu fel wal cei mwynderol. Byddai diffiniad pwrpas y wal yn penderfynu ar lefel yr arian a all fod ar gael pan fo'r stanciau dalennau yn cael eu newid. Cymerwyd camau i leihau effaith y cyrydiad dŵr isel sydd wedi gwaethygu ac mae anodau i atal rhydu wedi eu lleoli ar y stanciau dalennau. Ymddengys nad yw lleoliad yr anodau ar y stanciau dalennau yn effeithiol oherwydd bod angen newid yr anodau atal rhydu yn aml.

(b) Nodwyd pwysigrwydd wrth gymryd y cyfle uchod i edrych ar y darlun cyflawn er budd gwelliannau i Aberdyfi ac i glustnodi adnoddau 'rwan mewn da bryd a chael cynlluniau mewn lle fel bo modd ei gynnwys ar restr o flaenoriaethau.

(c) Cyfeiriodd cynrychiolydd y Clwb Hwylio y byddai o fudd ystyried y posibilrwydd o wneud cais am adnoddau ariannol o gronfa Ewropeaidd i bysgotwyr sydd ar gael tan 2013.

Mewn ymateb, roedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o'r farn nad oedd yn bosibl cyflwyno cais i gronfa pysgotwyr ar gyfer gwelliannau o'r math uchod i'r cei.

(ch) Nododd Aelod arall y dylai'r Adran Economi a Chymuned lobio Llywodraeth y Cynulliad am arian oherwydd pe byddai'r cei yn cwympo fe fyddai'r gost o'i ail-adeiladu llawer iawn mwy na'r gost o'i adnewyddu.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r sylwadau uchod.**

**(vii) Cyfleusterau'r Harbwr**

(a) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

- bod bwriad i gynnal a chadw Cysgodfa Penhelyg o fis Ebrill ymlaen gyda'r bwriad o adnewyddu 50% o'r costau gan Ymddiriedolaeth Richard Roberts.
- Bod cyflwr Bryn Llestair yn creu pryder iddo ac fe edrychir ar fuddsoddiad sylweddol i dynnu'r bont droed ar gyfer trwsio a'i rhoi yn ôl. Nid oedd yn opsiwn i gau'r bont droed ac fe ofnir am ddiogelwch y rheilffordd oddi tani. Gwnaed ymchwiliad yn 2011 ar gost o

£1,350 ac fe gomisiynir arolwg pellach manwl o'r bont droed gan yr Uned Ymgynghoriaeth yn ystod gwanwyn 2012. Hyderir y bydd dyluniad manwl ar gael erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn

- Ei fod wedi derbyn galwad ffôn gan y Rheolwr Hawliau Tramwy, yn datgan nad oedd y llwybr pren – llwybr troed y golff yn gyfrifoldeb i'w Adran gan nad oedd ym mherchnogaeth yr Adran. Archwiliwyd y llwybr pren ac amcangyfrifir costau i'w adnewyddu o oddeutu £3,500.

(b) Nodwyd ei fod yn annheg bod yr Uned Forwrol wedi gorfod cymryd cyfrifoldeb o'r bont droed Bryn Llestair ac awgrymwyd oni ellir cyflwyno cais i'r Outward Bound a'r Cyngor Cymuned greu partneriaeth i'w fabwysiadu. Byddai creu partneriaeth yn eu galluogi i gyflwyno ceisiadau am adnoddau ariannol Ewropeaidd, e.e. "Cronfeydd Mynediad" a.y.b. sydd allan o gyrraedd y Cyngor ei hun.

(c) Yng nghyswllt y llwybr pren, deallwyd gan Aelod bod cyrff megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a'r Clwb Golff wedi cyfrannu at adeiladu'r llwybr pren ond nad oedd neb wedi ystyried na chymryd cyfrifoldeb o'i gynnal a'i gadw yn y tymor hir. Awgrymwyd efallai y byddai modd iddynt gyfrannu eto. Addawodd y Cynghorydd Dewi Owen y byddai yn codi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Clwb Golff.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

5. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd oherwydd y byddai trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn newid ar ôl Etholiad mis Mai 2012, nad oedd y calendr drafft o gyfarfodydd y Cyngor wedi ei gymeradwyo eto.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**CADEIRYDD**